# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Little Stars Abercarn**

**Uned 7**
**Darren Drive**
**Abercarn**
**Casnewydd**
**NP11 5AR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/08/2023

# Meithrinfa Little Stars Abercarn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Kelly Podmore |
| Lleoedd cofrestredig | 62 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Tachwedd 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus, mae ganddynt lais cryf a gallant wneud dewisiadau a'r rhan fwyaf o benderfyniadau'n annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn chwilfrydedd a diddordeb. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff.

Mae'r staff yn gweithredu polisïau'n bennaf ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol, a llesiant. Mae'r staff yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am gyflawniadau ac am ymddygiad da. Maent yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad oedolion. Mae'r staff yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff diddordebau a chwilfrydedd y plant eu datblygu ymhellach.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y gofod chwarae awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Maent yn darparu adnoddau priodol, ysgogol i bob oedran a cham datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â bron pob un o'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac, ar y cyfan, maent yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gan gynnig cymorth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn llawn brwdfrydedd ac maent yn cynnig gofal o safon uchel iawn i'r plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a gofalwyr.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y feithrinfa ac yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr. Mae bron pob un o'r plant wedi meithrin cysylltiadau emosiynol cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant a'r staff yn chwarae gyda'i gilydd, yn trafod syniadau, ac yn gwneud awgrymiadau ar ddatblygu gweithgareddau ymhellach. Mae'r plant yn gwybod bod y staff yn ymateb i'w hangenion yn effeithiol, fel eu hoffterau a'u cas bethau, pan fyddamt yn drist neu'n hapus, a phan fydd angen cysur arnynt pan fyddant yn teimlo'n sal. Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus yn y feithrinfa ac maent yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus ym mhob gweithgaredd. Er enghraifft, mae'r plant iau yn chwarae gyda'i gilydd wrth daflu pêl a chanu caneuon yn ystod amser cylch. Mae'r plant hŷn yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu blociau ac yn yr ardal dywod. Mae'r plant yn dyfalbarhau â gweithgareddau am gyfnod o amser sy'n briodol i oedran, ac yn rheoli eu hymddygiad. Maent yn cymryd eu tro ac yn hapus i gefnogi ei glydd mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Caiff y plant ar draws y feithrinfa eu hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys pa weithgaredd i gymryd rhan ynddo. Mae sawl gweithgaredd ar gael i'r plant, gan gynnwys adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant, adeiladu blociau, tynnu lluniau neu gelf a chrefft. Mae'r plant yn cael rhyddid i symud o un gweithgaredd neu gyfarpar i'r llall. Caiff y plant hŷn eu hannog i benderfynu ar yr hyn y maent am ei fwyta ac a ydynt eisiau mwy.

Mae bron pob un o'r plant yn cyfathrebu'n llwyddiannus â'i gilydd a gydag oedolion. Caiff ymdrechion y plant i gyfathrebu eu parchu gan y staff. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, caiff y plant iau eu hannog i ryngweithio a chyfathrebu. Pan y dewiswyd seren allan o'r fasged, cafodd pawb eu hannog i ganu “Twinkle Twinkle Little Star.” Mae'r plant hŷn yn trafod syniadau a phynciau, ac mae'r plant iau yn trafod yr hyn y maent wedi ei fwynhau a'r hyn sydd wedi gweithio'n dda.

Mae'r Plant Hŷn yn datblygu eu hannibyniaeth a'u sgiliau yn briodol. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i wisgo eu hetiau a'u cotiau cyn mynd allan. Mae'r plant hŷn yn cael mynd i'r toiled a golchi eu dwylo'n annibynnol, ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt yn annibynnol. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio mae'r plant yn bwydo eu hunain. Fod bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom y gellid datblygu annibyniaeth y plant yn ystod amseroedd bwyd ymhellach. Er enghraifft, byddai'r plant yn cael budd o weini eu hunain yn ystod amser cinio ac arllwys eu diodydd eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn helpu i dacluso ar ôl chwarae a rhoi'r cyfarpar i gadw.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cael hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn deall gweithdrefnau amddiffyn plant y feithrinfa yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac felly yn gallu delio â digwyddiadau a damweiniau yn briodol. Mae systemau effeithiol ar waith i gofnodi'r trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth a ragnodwyd yn ddiogel ac mae'r rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y dosau a roddir gan y staff. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel ac ni all y plant gael gafael arnynt. Rhoddir meddyginiaeth sydd heb ei rhagnodi gan y staff, ond dim ond os y caiff ei chyflwyno yn y poteli gwreiddiol a chaiff y ffurflenni caniatâd priodol eu llofnodi.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau yr hyfforddiant perthnasol ar hylendid bwyd. Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos i atgoffa'r staff am hylendid, gan gynnwys rhestrau gwirio glanhau, cofnodlyfrau tymheredd a phrosesau golchi dwylo wrth baratoi bwyd. Fodd bynnag, roedd y gweithdrefnau hylendid i'w gweld yn anghyson ar adegau. Er enghraifft, ni wnaeth y staff i gyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl newid cewynnau a chyn gweini byrbrydau a chinio. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn byrbrydau bys a bawd ond ddim ar ôl hynny. Gwelsom y staff yn ailosod eitemau sydd wedi'u gollwng ar y llawr gan sicrhau y cânt eu hailosod ag offer glanhau i leihau unrhyw groeshalogi. Mae'r staff yn paratoi byrbrydau a chinio iachus ar gyfer y plant. Mae'r rhain yn cynnwys ffrwythau a bwydlen ginio amrywiol ac iach. Er enghraifft, cyri a reis, bysedd pysgod a risoto cyw iâr. Caiff trefniadau glanhau byrddau a chadeiriau uchel eu cynnal cyn ac ar ôl gweithgareddau, ac amseroedd byrbrydau a chinio. Caiff gwybodaeth am alergeddau a gofynion deietegol ei harddangos yn glir yn y gegin.

Mae'r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r staff yn atgoffa'r plant yn aml am ddisgwyliadau, technegau tynnu sylw ac yn canmol ymddygiad da yn gyson. Gwelsom y staff yn dangos agweddau digynnwrf a chadarnhaol tuag at y plant i gyd. Mae'r staff yn siarad yn effeithiol â'r plant yn ystod y gweithgareddau i gyd ac yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Maent yn gwneud amser y plant yn y feithrinfa yn bleserus. Er enghraifft, yn ystod gweithgareddau, mae'r staff yn eistedd gyda'r plant er mwyn gofyn cwestiynau iddynt ac awgrymu a thrafod syniadau. Mae'r staff yn fodelau rôl gwerthfawr ac mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r plant.

Mae'r staff yn hybu dysgu a datblygiad y plant yn gadarnhaol drwy amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda. Er enghraifft, celf a chrefft, defnyddio blociau adeiladu i greu adeiladau, ardaloedd traeth a thywod ac amser cylch. Gwnaed defnydd da o'r parc lleol a'r ardal awyr agored i wella dysgu a datblygiad y plant. Mae'r plant yn mwynhau mynd i'r parc ac fe'u gwelsom yn cyffroi pan wnaeth y staff gasglu cyfarpar, fel y

parasiwt, ar gyfer mynd ar ymweliad â'r parc. Caiff cynnydd y plant ei olrhain drwy arsylwadau a'i ddefnyddio i gynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn cynllunio yn unol â datblygiad unigol y plant.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr eiddo'n lân, ac wedi'i gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, caiff mynediad i'r adeilad ei gyfyngu ac bydd pob ymwelydd yn cofrestru wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Caiff bysellbad neu system fynediad bwcl tro uchel ei defnyddio gan y staff ar gyfer ystafelloedd y plant i gyd, ac mae giatiau diogelwch yn amlwg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal profion ac ymarferion tân yn rheolaidd ac mae ganddynt bron bob asesiad risg ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gwneud yr ystafelloedd yn groesawgar i'r plant â lluniau ac arddangosiadau amlwg. Caiff yr ystafell chwarae i lawr y grisiau ei rhannu yn ddau grŵp oedran, gan ddefnyddio giât lefel isel. Mae ynddi ardaloedd penodol ar gyfer dysgu, a chaiff y plant ddodrefn addas ar gyfer eu hoedran i'w defnyddio, ac amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar addas ar gyfer eu hanghenion. Mae digon o gyfarpar ar y cyfan, yn eu hystafelloedd addas ar gyfer oedran. Mae sawl un ar lefel isel, ym mhob ardal, fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Fodd bynnag, doedd dim digon o gyfarpar yn y gornel gartref, er mwyn i'r plant chwarae rôl yn realistig.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa ystafell fabanod i fyny'r grisiau sydd ag ystod eang o deganau sy'n briodol i oedran fel bwa darllen, teganau cerddoriaeth, a blociau dringo meddal ar lefel isel. Mae llefydd addas i fwyta, fel cadeiriau a byrddau ar lefel isel a chadeiriau uchel, a matresi a chotiau i gysgu arnynt. Nid oes bleindiau ar ffenestr yr ystafell hon a gall fynd yn boeth. Mae'r ffenestri yn uchel felly mae angen stepiau ar y staff i'w hagor. Mae teiars car wedi'u gosod ar y llawr, a syrthiodd un plentyn i mewn i un, ac roedd yr ymylon yn galed. Mae ystafell newid cewynnau, gyda thoiled, sinc a bwrdd newid. Fodd bynnag, mae'r bwrdd newid ond yn addas ar gyfer babanod ifanc yn unig. Mae gan y grisiau sy'n arwain at ystafell y babanod, ddau ganllaw ar wahanol uchder, un i'r staff, ac un i'r plant. Mae cyfleoedd i gael sgyrsiau cyfrinachol yn y swyddfa.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod mwy na digon o le i'r plant gael llawer o gyfleoedd y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r ystafelloedd i gyd yn fawr ac mae digon o le i alluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio yn rheolaidd a'i bod yn estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae'n ddiogel iawn gyda ffens bren uchel ac mae'n cynnwys ardal dan orchudd sy'n addas ar gyfer pob tywydd. Mae amrywiaeth o gyfarpar y tu allan fel ffrâm

ddringo a sleid, tŷ bach twt, a theiars. Mae glaswellt plastig y tu allan a all fynd yn boeth yn yr haul, ac mae angen cynnal asesiad risg o hyn.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Digonol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth dda ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol. Ar y cyfan, mae'r person cofrestredig yn cefnogi'r person â chyfrifoldeb yn dda o ran rhedeg y feithrinfa o ddydd i ddydd. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac yn ymateb yn sydyn i argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae amrywiaeth dda o bolisïau i gefnogi'r gwaith diogel ac effeithlon o redeg y feithrinfa. Fodd bynnag, nid yw'r polisi newid cewynnau yn adlewyrchu'r arferion presennol. Mae'r gwaith papur yn drylwyr ac yn drefnus, ac mae'r unigolyn â chyfrifoldeb yn cynnal yr holl gofnodion cynnal a chadw gofynnol. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n adlewyrchu sut mae'r feithrinfa'n gweithredu'n gywir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn deall eu cyfrifoldeb i gynnal adolygiad blynyddol o ansawdd eu gofal a chynhyrchu adroddiad. Maent yn casglu barn y rhieni a'r plant am ansawdd eu gwasanaeth drwy holiadur neu arsylwadau, a barn y staff drwy gyfarfodydd staff. Mae'r adroddiad yn nodi targedau datblygu'r dyfodol, gan gynnwys cyfarfodydd staff ac adolygu polisïau a gweithdrefnau. Maent yn y broses o gwblhau Gwobrau Safonau Ansawdd Caerffili ar hyn o bryd.

Ar y cyfan, mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weithdrefnau recriwtio boddhaol ar waith sy'n diogelu'r plant. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau'r staff i gyd wedi'u cwblhau. Maent yn sicrhau bod ganddynt ddigon o staff yn gweithio gyda'r plant ac mae trefniadau addas ar waith i gyflenwi egwylion y staff.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac y gallant siarad â'u rheolwyr ar unrhyw adeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac mae system ganddynt ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r staff. Fodd bynnag, ni wnaeth y person newydd sy'n rheoli gael ei goruchwylio na'i harfarnu ers iddi gael ei dyrchafu'n ddiweddar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel amddiffyn

plant a chymorth cyntaf pediatrig. Maent yn galluogi'r staff i ymgymryd â hyfforddiant arall a allai eu cefnogi yn eu gwaith gyda'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa a'r staff yn meithrin cydberthnasau da â'r rhieni. Maent yn rhoi contract ar gyfer pob plentyn ar waith ac yn casglu'r wybodaeth briodol berthnasol i ddiwallu anghenion unigol y plant, cyn iddynt ddechrau yn y feithrinfa. Maent yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys adborth dyddiol a chylchlythyrau misol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 17 | Nid yw'r Person Cofrestredig wedi lanlwytho ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar gyfer 2021 o fewn yr amserlen a nodwyd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 13 (Gwarchodwr Plant) - Person Addas | Ailddechrau sesiynau goruchwylio ac arfarnu gyda'r person â chyfrifoldeb. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cynnal asesiad risg ar y glaswellt ffug mewn tywydd poeth. |
| Hyrwyddo annibyniaeth y plant yn ystod amser byrbryd a chinio. |
| Sicrhau cysondeb o ran trefniadau golchi dwylo y staff a'r plant. |
| Darparu cyfarpar mwy naturiol yn y gornel gartref. |
| Darparu trefniadau amgen er mwyn i'r plant bach gael newid eu cewynnau. |
| Sicrhau bod ffeiliau archwilio'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/10/2023